# Cyhoeddiad cyffrous!

## Cynlluniau Wedi'u Cyflwyno ar gyfer Canolfan Chwarae Meddal yng Nghanolfan Menai ym Mangor

Gallai atyniad mawr newydd i deuluoedd fod ar y gweill ar gyfer canol dinas Bangor, yn sgil cyflwyno cynlluniau i drawsnewid uned fanwerthu wag fawr yn ganolfan chwarae meddal dan do flaenllaw.

Byddai'r cynnig yn gweld Uned 7 yng Nghanolfan Menai, sydd wedi bod yn wag ers dros flwyddyn yn dilyn cau River Island ym mis Mawrth 2025, yn cael ei defnyddio unwaith eto, drwy ehangu busnes sydd wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru o'r enw'r Cubs Play Centre.

Mae'r uned, sy'n ymestyn dros fwy na 7,000 troedfedd sgwâr, wedi cael ei marchnata'n helaeth gan sawl asiant, ond heb ddenu unrhyw gynigion cadarn hyd yma. Os caiff ei gymeradwyo, byddai'r datblygiad yn gam sylweddol ymlaen o ran ymdrechion i adfywio stryd fawr Bangor. Erbyn hyn, mae'r Cubs Play Centre, a agorodd ei safle cyntaf yn Llangefni ym mis Ionawr 2026, yn dymuno ehangu a symud ei bencadlys i Fangor, gan greu'r hyn fyddai ei brif leoliad.

Byddai'r cyfleuster arfaethedig yn cynnwys lle chwarae dan do wedi'i wahanu a'i ddylunio i ddarparu lle ar gyfer plant o bob oed. Byddai'n cynnwys man synhwyraidd ar gyfer babis, man dynodedig ar gyfer plant bach, ynghyd ag adeiledd chwarae meddal mwy ar gyfer plant cynradd. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys caffi, ystafelloedd parti, man chwarae rhyngweithiol a lle ar gyfer gweithgareddau cymunedol, fel sesiynau i rieni â phlant bach, gweithgareddau addysgol, digwyddiadau tymhorol a grwpiau mamolaeth.

Os cymeradwyir y cynllun, disgwylir y bydd yn creu rhwng 25 a 30 o swyddi ar gyfer pobl leol. Mae'r cynnig yn cynnwys gwaith addasu cynhwysfawr, fel gosod lloriau, goleuadau ac arwyddion newydd, ynghyd ag offer chwarae arbenigol, uwchraddio systemau trydanol a phlymio, a chyfleusterau toiled a fyddai wedi'u hadnewyddu'n llwyr.

Dywedodd Dafydd Roberts, sylfaenydd y Cubs Play Centre, bod y bwriad hwn i symud yn cynrychioli carreg filltir bwysig i'r busnes.

"Rydyn ni wedi gweld dros ein hunain yn Llangefni pa mor werthfawr y gall amgylchedd chwarae o ansawdd uchel, sy'n ddiogel, yn lân ac yn groesawgar, fod i deuluoedd. Ers i ni agor, rydyn ni wedi bod yn eithriadol o boblogaidd, mae'r adborth a'r adolygiadau rydyn ni'n eu cael wirioneddol yn dangos hyn. Mi fyddwn ni'n parhau i ddarparu'r un lefel o safonau a gwasanaeth, wrth gynnal y diwylliant a'r gwerthoedd y mae pobl leol wedi bod wrth eu boddau â nhw yn nhref Llangefni."

Aeth Dafydd ymlaen i ddweud, "Mae Bangor yn gam nesaf naturiol i ni. Nid ar chwarae bach ydyn ni'n ystyried y fraint o agor lleoliad yn y ddinas hynaf yng Nghymru. Mae yna rywbeth gwirioneddol arbennig am ddod yn rhan o hanes mor gyfoethog, wrth helpu i lywio ei dyfodol. Mae'r gobaith o atgyfodi'r stryd fawr yn ein cyffroi ni, ac rydyn ni'n falch o gael chwarae rôl yn ei hadfywiad a'i thwf, gan gyfrannu at bennod newydd fywiog ar gyfer y gymuned.

Nid dim ond canolfan chwarae fyddai hon, mi fyddai'n lle i deuluoedd ddod at ei gilydd, i ddathlu, dysgu, a threulio amser mewn lle sydd wedi'i ddylunio gyda'u hanghenion nhw ar flaenau ein meddyliau."

Ers prynu Canolfan Menai, mae Quidos Investments Ltd yn dweud ei fod wedi bod yn gweithio i ddenu tenantiaid newydd ac adfywio'r safle.

Dywedodd Nick Pritchard, Cyfarwyddwr Quidos Investments:

"Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn o ran canol dinas Bangor. Ers cymryd perchnogaeth o Ganolfan Menai, rydyn ni wedi cael trafodaethau parhaus â nifer o ddarpar denantiaid, ac mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu'r math o fuddsoddiad o ansawdd uchel rydyn ni eisiau ei weld, sy'n canolbwyntio ar y gymuned."

"Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â busnesau a rhanddeiliaid i gyflwyno datblygiadau sy'n cynyddu nifer yr ymwelwyr, ac yn cefnogi'r stryd fawr ehangach. Mae yna gyfleoedd cyffrous ar y gweill, felly cadwch eich llygaid ar agor am ragor o wybodaeth."

Disgwylir y bydd y ganolfan chwarae newydd yn hwb sylweddol o ran y niferoedd sy'n ymweld â Bangor, yn enwedig teuluoedd, teidiau a neiniau a gofalwyr, gan helpu i gefnogi busnesau a leolir yn y cyffiniau, a chryfhau economi canol y ddinas.

Mae cyflwyno'r cais cynllunio hwn yn nodi'r cam cyntaf yn y broses, disgwylir y bydd rhagor o fanylion yn cael eu datgelu os caiff y cynlluniau eu cymeradwyo.

